# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 12

HAWLIADAU MEDDIANT: PWERAU'R LLYS
MEWN PERTHYNAS Â SEILIAU ABSOLIWT

(NID YW'R BENNOD HON OND YN GYMWYS I GONTRACTAU SAFONOL)

*Adolygiad a gohirio*

### 218 Adolygiad o hawliad a wneir ar sail absoliwt

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw landlord o dan gontract safonol yn gwneud hawliad meddiant yn y llys sirol ar sail mewn adran y mae is-adran (2) yn gymwys iddi, a—

(a) bod y landlord yn landlord cymunedol, neu

(b) bod penderfyniad y landlord i wneud hawliad meddiant ar y sail honno yn ddarostyngedig i adolygiad barnwrol.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i'r adrannau a ganlyn—

(a) adran 170 (hysbysiad deiliad y contract: contractau safonol cyfnodol),

(b) adran 178 (hysbysiad y landlord: contractau safonol cyfnodol),

(c) adran 181 (ôl-ddyledion rhent difrifol: contractau safonol cyfnodol),

(d) adran 186 (hysbysiad y landlord mewn cysylltiad â diwedd cyfnod penodol),

(e) adran 187 (ôl-ddyledion rhent difrifol: contractau safonol cyfnod penodol),

(f) adran 191 (hysbysiad deiliad y contract: contractau safonol cyfnod penodol), ac

(g) adran 199 (hysbysiad y landlord: contractau safonol cyfnod penodol).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Adolygiad a gohirio yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(3) Caiff deiliad y contract wneud cais yn ystod yr achos adennill meddiant am adolygiad gan y llys sirol o benderfyniad y landlord i wneud yr hawliad.

(4) Caiff deiliad y contract wneud cais o dan yr adran hon ni waeth a ofynnodd am adolygiad gan y landlord o dan adran 202 (contractau safonol rhagarweiniol a chontractau safonol ymddygiad gwaharddedig) ai peidio.

(5) Ond ni chaiff deiliad y contract wneud cais o dan yr adran hon ar y sail fod yr hawliad meddiant yn hawliad dialgar (o fewn ystyr adran 217).

(6) Caiff y llys sirol gadarnhau'r penderfyniad i wneud yr hawliad neu ei ddiddymu.

(7) Wrth ystyried a ddylai gadarnhau'r penderfyniad neu ei ddiddymu, rhaid i'r llys sirol gymhwyso'r egwyddorion a gymhwysir gan yr Uchel Lys pan wneir cais am adolygiad barnwrol.

(8) Os yw'r llys sirol yn diddymu'r penderfyniad caiff—

(a) rhoi'r hysbysiad adennill meddiant neu (yn ôl y digwydd) hysbysiad y landlord o'r neilltu a gwrthod yr achos adennill meddiant;

(b) gwneud unrhyw orchymyn y gallai'r Uchel Lys ei wneud wrth wneud gorchymyn diddymu ar gais am adolygiad barnwrol.

(9) Ni chaiff deiliad y contract wneud cais o dan is-adran (3) ar ôl i orchymyn adennill meddiant gael ei wneud mewn perthynas â'r annedd.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 9 wedi ei eithrio (1.12.2022) gan 2004 c. 34, a. 33(c) (fel y mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **28(2)(c)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 218 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 218 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 219 Pwerau i ohirio ildio meddiant

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r llys yn gwneud gorchymyn adennill meddiant o annedd o dan adran 215 neu 216.

(2) Ni chaiff y llys ohirio ildio meddiant hyd ddyddiad diweddarach na 14 diwrnod ar ôl gwneud y gorchymyn, oni bai ei bod yn ymddangos i'r llys y câi caledi eithriadol ei achosi pe na byddai ildio meddiant yn cael ei ohirio tan ddyddiad diweddarach.

(3) Ni chaniateir gohirio ildio meddiant hyd ddyddiad diweddarach na chwe wythnos ar ôl gwneud y gorchymyn mewn unrhyw achos.

(4) Caniateir gohirio ildio meddiant drwy'r gorchymyn adennill meddiant, neu drwy atal neu oedi cyn gweithredu'r gorchymyn adennill meddiant.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 219 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Adolygiad a gohirio yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I4** A. 219 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Adolygiad a gohirio yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5